***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 286 (Cy. 35)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11th February 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Mawrth 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 250(2)(a) o Ddeddf Tai 2004 ac Atodlen 13 iddi(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014, a deuant i rym ar 10 Mawrth 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(**3**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 49(2) (atebolrwydd i dalu ffi a hepgor ffioedd)—

(a) dileer yr atalnod llawn ar ddiwedd is-baragraff (d); a

(b) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder—

"; neu

(dd) credyd cynhwysol."

(3) Ym mharagraff 13 o'r Atodlen—

(**1**) 2004 p.34.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Tai 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2012/531 (Cy.83).

(a) yn is-baragraff (2)(a)(iv) ar ôl y geiriau "budd-dal tai" mewnosoder "neu'r credyd cynhwysol"; a

(b) yn is-baragraff (2)(b)(i) ar ôl y geiriau "budd-dal tai" mewnosoder "neu gredyd cynhwysol".

(4) Ym mharagraff 19 o'r Atodlen—

(a) yn is-baragraff (2)(a)(iv) ar ôl y geiriau "budd-dal tai" mewnosoder "neu'r credyd cynhwysol"; a

(b) yn is-baragraff (2)(b)(i) ar ôl y geiriau "budd-dal tai" mewnosoder "neu gredyd cynhwysol".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 (O.S. 2012/531) ("y Prif Reoliadau") o ganlyniad i gyflwyno credyd cynhwysol gan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012.

Caiff rheoliad 49 ei ddiwygio er mwyn caniatáu ystyried y ffaith bod credyd cynhwysol yn cael ei dderbyn wrth benderfynu a ellir hepgor ffi tribiwnlys.

Caiff yr Atodlen i'r Prif Reoliadau hefyd ei diwygio i gynnwys prawf bod credyd cynhwysol wedi cael ei dalu o fewn y rhestr o ddogfennau penodedig y mae'n ofynnol iddynt fynd gyda cheisiadau penodol a restrir yn yr Atodlen honno.